

Beirniadaeth Cystadleuaeth Rhif 387 - Rhyddiaith dan 25 oed – Araith: Pam?

1af – Olion, Rhif Aelodaeth F59159

Beirniad – Steffan Messenger

Un ymgais ddaeth i law – a hynny'n amlwg yn siom. Mae'r blynyddoedd diwethaf o gynnwrf gwleidyddol wedi amlygu pwysigrwydd a photensial y grefft o allu cyfansoddi araith dda. Byddai rhywun yn naturiol wedi gobeithio gweld mwy yn mentro o ganlyniad.

Ond diolch i'r drefn fe wnes i fwynhau darllen ymdrech OLION, a hithau'n gofyn pam ei bod hi'n bwysig i ni ddefnyddio'r Gymraeg? Mae yma gyfeiriad at fuddion economaidd, addysgiadol – a manteision hyd yn oed i'n hiechyd. Ond drwyddi draw mae'r awdur yn ceisio annog ei chynulleidfa i weld y tu hwnt i hynny, gan ddadlau bod ymdrechu i siarad Cymraeg yn ddyletswydd ar bawb sy'n ddigon ffodus i fedru gwneud. "Ydych chi wir eisiau bod yn rhan o'r genhedlaeth sydd yn gyfrifol am farwolaeth yr iaith hynafol yma?" meddai. Tybed ai ffrindiau a chyfoedion OLION yw'r gynulleidfa darged?

Mae'r araith yn dangos ôl gwaith ymchwil gan wneud defnydd da o ystadegau. Heb ddifetha llif y peth - cofia grybwyll ffynhonnellau dy ffeithiau os oes modd. Mae'r arddull yn taro deuddeg – gan ddefnyddio cwestiynau i herio'r gynulleidfa a rhestru i ychwanegu pwyslais o bryd i'w gilydd. Gwylia am y gwallau iaith yma ac acw.

Ar y cyfan mae'n araith afaelgar a diddorol ac yn haeddu cael ei gwobrwyo.